**ARCHWILIAD GAN SWYDDOG DIOGELWCH TÂN – BETH I'W DDISGWYL**

1 CYFLWYNIAD

Darperir yr arweiniad hwn er gwybodaeth ichi, ac er mwyn ei ddefnyddio wrth baratoi ar gyfer yr archwiliad diogelwch tân.

Cynhelir yr archwiliadau gan ddilyn canllawiau cenedlaethol fel bod unrhyw gyngor yn gyson ac yn gymesur i'r risg sydd ar eich safle.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn credu mai gwell rhwystro'r clwy na'i wella, a bydd ein harchwiliwyr yn gweithio gyda chi i'ch cynghori a'ch cynorthwyo i gyrraedd y safon angenrheidiol.

Bydd ein harchwilwyr yn cynnal yr archwiliadau mewn ffordd deg ac agored, ac yn unol â Datganiad Polisi Gorfodaeth Awdurdod Tân Gogledd Cymru sydd ar gael ar wefan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

2 ARCHWILWYR DIOGELWCH TÂN

Mae gwarant ysgrifenedig gan yr archwilwyr diogelwch tân, a gallwch ofyn am gael ei weld. Mae'r gwarant hwn yn rhoi rhai pwerau i'r archwilwyr. Mae crynodeb o'r pwerau hyn, a'r ddeddfwriaeth dan sylw, yn y ddogfen 'Gweithdrefnau Archwilio a Gorfodaeth'.

3 DOGFENNAU ANGENRHEIDIOL YN YSTOD YR ARCHWILIAD

Yn ystod yr archwiliad, bydd angen i'r archwilydd weld y dogfennau canlynol lle bônt yn berthnasol i'ch safle:

- Asesiad Risg Tân
- Llyfr Log Rhagofalon Tân
- Cofnodion o Hyfforddiant Staff ac Ymarferion Tân
- Cofnodion o Profi a Chynnal a Chadw Offer Diffodd Tân
- Cofnodion o Brofi a Chynnal a Chadw'r Holl Systemau Diogelwch Tân, gan gynnwys Larymau Tân, Goleuadau Argyfwng, System Chwistrellu Dŵr, System Awyru Mwg

4 SAFONAU DIOGELWCH TÂN O FEWN YR ADEILAD

Fel rhan o'r archwiliad, efallai y bydd yr archwilydd yn dymuno monitro'r safonau diogelwch tân yn yr holl adeilad, neu ran ohono.

Efallai y bydd yr archwilydd hefyd yn dymuno siarad gydag aelodau o'r staff er mwyn cadarnhau eu lefel o ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.